Helaetha derfynau dy deyrnas

Caneuon Ffydd: Rhif 264

Helaetha derfynau dy deyrnas
a galw dy bobol ynghyd,
datguddia dy haeddiant anfeidrol
i'r eiddot, Iachawdwr y byd;
cwymp anghrist, a rhwyga ei deyrnas,
O brysied a deued yr awr,
disgynned Jerwsalem newydd
i lonni trigolion y llawr.

Eheda, Efengyl, dros ŵyneb
y ddaear a'r moroedd i gyd,
a galw dy etholedigion
o gyrrau eithafoedd y byd;
O brysia'r cyfarfod heb lygredd
na rhyfel na chystudd na phoen,
dydd Jwbil yr etholedigion
a chydetifeddion â'r Oen.

MORGAN RHYS, 1716 – 79

MYFYRDOD

Dyhead sydd gan Morgan Rhys am weld Duw yn cyflawni ei genhadaeth yn ei fyd, yn helaethu terfynau ei deyrnas, ac mae'n cydnabod mai gwaith Duw ydyw hynny. Duw sy'n galw ei 'bobl ynghyd' ac yn datguddio Iesu Grist iddyn nhw. Ond pe byddem ni'n ei gadael hi'n y fan yna, yna byddai hi'n braf iawn arnom, ac ni fyddai gennym unrhyw gyfrifoldeb i wneud dim ein hunain oherwydd gwaith Duw yw'r cyfan!

Ond mae Duw'n dewis ein defnyddio ni yn ei waith. Fe ddaeth i'n plith ym mherson ei Fab Iesu Grist ac fe ddatguddiodd ei hun inni trwyddo ef. Yr ydym ni bellach, o fod wedi derbyn y datguddiad hwnnw o'r Newyddion Da yn Iesu Grist, i'w rannu gydag eraill. Mae Duw yn arddel y gwaith hwnnw pan fydd ei Fab yn cael ei ogoneddu. Daeth Teyrnas Nef yn agos atom yn Iesu Grist

ac mae Duw am inni ddyheu a gweithio er mwyn gweld sefydlu'r deyrnas honno yn ein plith: 'Deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef ', yw ein cri yng Ngweddi'r Arglwydd (Mth. 6:10), ac fe welwn ni hi'n cael ei sefydlu a'i helaethu yn ein plith wrth i ni wneud ewyllys Duw a dod yn rhan ohoni.

Ni wn a oedd gweddi dyn o'r enw Jabes (1 Cron. 4:10) ym meddwl Morgan Rhys wrth iddo gyfansoddi'r emyn hwn, ond fe ddaeth y weddi fechan honno yn un boblogaidd yn ddiweddar gyda nifer o lyfrau'n cael eu hysgrifennu amdani. Gofyn mae Jabes: 'O na fyddit yn fy mendithio ac yn ehangu fy nherfynau!' sydd ar yr olwg gyntaf i'w weld yn ddyhead hunanol. Ond gofyn oedd Jabes ar i'w ddylanwad gael ei ymestyn a'i gynyddu er lles ac er clod i'r Arglwydd. Cafodd ei ddymuniad ac fe fendithiodd Duw ef. Gallwn ni i gyd ddilyn esiampl fel un Jabes a gofyn i'r hyn a wnawn yn ein gwaith bob dydd, ein cysylltiadau ag eraill ac ati, gael eu bendithio a'u defnyddio gan Dduw er mwyn helaethu ei deyrnas.

Ceir gorchymyn ac addewid hefyd yn Eseia 54 i'r wraig amhlantadwy: 'Helaetha faint dy babell, estyn allan lenni dy drigfannau; gollwng y rhaffau allan i'r pen, a sicrha'r hoelion' (adn. 2). Mae hi i wneud paratoadau ar gyfer y cyfnod pan fydd hi'n cael plant ac i ymestyn y babell cyn belled ag yr aiff hi. Credwn fod hwn yn addewid i ninnau hefyd – y rhai sydd yn ein heglwysi yn dal i ddyheu ar i Dduw roi plant i ni, ar i'r Efengyl wneud ei gwaith yn ein plith, ac i bobl ddod o'r newydd i berthynas â Duw trwy ei Fab a chael eu gwneud yn blant iddo trwy waith yr Ysbryd Glân yn eu calonnau.

Yn sicr, mae Duw am weld lledu terfynau ei deyrnas i'r byd yn gyfan, ond am i ni ein rhoi ein hunain i'r gwaith hwnnw; ymestyn ein cyrhaeddiadau a helaethu ein pebyll ein hunain a pharatoi ar gyfer y plant y bydd ef yn eu rhoi inni.

GWEDDI

Arglwydd Dduw Dad, rwy'n diolch iti am dy addewid y byddi'n helaethu dy deyrnas ac rwy'n dyheu am ei gweld hi'n dod yn ei grym. Bendithia fi wrth imi ymestyn allan er lledaenu neges y deyrnas honno: cariad, gras, maddeuant a chymod yn Iesu Grist. Amen.